# Cadeirydd

## Partneriaeth Chwaraeon Gwent

**Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr**

Dyddiad Cau: Hanner nos Dydd Sul 19 Hydref

Dyddiad Cyfweld: Dydd Llun 3 Tachwedd



acorn by SYNERGIE

GWENT SPORT PARTNERSHIP

PARTNERIAETH CHWARAEON GWENT

# Dull


Mae Chwaraeon Cymru ar siwrnai i newid y tirlun chwaraeon cymunedol ledled Cymru a sut mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael eu cyflwyno. Y nod yw creu newid sylweddol mewn lefelau chwaraeon a gweithgarwch corfforol ymhlith pobl yng Nghymru. Gyda'n gilydd rydym wedi ymrwymo i gael mwy o bobl yn actif drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Bydd ein Partneriaeth yn dod â rhanddeiliaid allweddol ledled Gwent at ei gilydd, rhanddeiliaid sy'n deall pwysigrwydd manteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac sydd â ffocws ar eu cyflawni. Gyda'n gilydd, byddwn yn datblygu gweledigaeth strategol i arwain ein gwaith ar y cyd ar draws y rhanbarth, gan gyfrannu at y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Bydd ein Partneriaeth yn cael ei harwain gan wybodaeth a bydd yn canolbwyntio ar y person o ran dull, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol, cynllunio a chomisiynu ar lefel ranbarthol, gyda phwrpas cyffredin yn cael ei gyflwyno ar lefel leol, gan sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy ystod o gyfleoedd sy'n diwallu eu hanghenion orau. Rydym yn awyddus i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio, gan wneud y defnydd gorau posibl o'r potensial ar gyfer dull rhanbarthol o gyflwyno, a hefyd creu gweledigaeth gadarn a fydd yn meithrin perthnasoedd strategol newydd gyda nifer eang o sefydliadau a phartneriaid ar draws pob diwydiant.

**Cyfansoddiad Partneriaeth Chwaraeon Gwent**

Bydd Partneriaeth Chwaraeon Gwent yn gweithredu fel model a gynhelir (gyda Chyngor Dinas Casnewydd yn cynnal), gyda fframwaith llywodraethu cadarn a thryloyw. Wrth ei chalon bydd Bwrdd cytbwys, cynhwysol, amrywiol a medrus a fydd yn canolbwyntio ar ein cyfeiriad strategol. Bydd y Bwrdd yn penodi hyd at un ar ddeg o aelodau, gan adlewyrchu buddiannau'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni uchelgais Gwent.




© Acorn by Synergie

# Rôl y Cadeirydd




**Mae hwn yn gyfle cyffrous i arweinydd profiadol, trawsnewidiol a all helpu i siapio dyfodol chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Ngwent.**

Rydym yn chwilio am unigolyn ysbrydoledig sy'n angerddol am werth ac effaith chwaraeon cymunedol a gweithgarwch corfforol a'r gred y dylai pawb fod yn actif gyda'i gilydd, am oes.

Bydd hon yn rôl proffil uchel, yn dylanwadu ar bolisi a strategaeth ranbarthol a chenedlaethol ac ar flaen y gad o ran dylunio a datblygu chwaraeon cymunedol yng Nghymru.

**Gan weithio gyda'r Tîm Gweithredol ar ôl ei recriwtio, rôl y Cadeirydd fydd darparu arweinyddiaeth effeithiol a chyfeiriad strategol, gan ganolbwyntio ar weledigaeth, gwerthoedd craidd, llywodraethu ac amcanion Partneriaeth Chwaraeon Gwent, gan sicrhau'r canlynol:**

- Bod gweledigaeth glir, cyfeiriad strategol ac amcanion ar gyfer y rhanbarth.
- Bod digon o adnoddau cynaliadwy i gyflawni'r cynllun strategol. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i arallgyfeirio ffrydiau refeniw, gan gynnwys cyllid a chyfleoedd masnachol gyda phartneriaid a noddwyr, a hefyd sicrhau bod gan y sefydliad reolaeth a pherthnasoedd rhagorol gyda rhanddeiliaid.
- Bod y Bwrdd yn canolbwyntio ar berfformiad sefydliadol, cynaliadwyedd ariannol a chyflawni ei nodau a'i amcanion corfforaethol.
- Bod y safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol a thegwch yn cael eu cynnal, a chydymffurfiaeth â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.
- Bod cyfathrebu effeithiol rhwng aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.
- Bod y Tîm Gweithredol yn cael ei reoli, ei arwain a'i gefnogi.

# Rôl y Cadeirydd - parhad

**Rheoli Cyfarfodydd**

Cadeirio Cyfarfodydd y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn (gan gynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol). Cynhelir y Cyfarfodydd Bwrdd hyn yn rhanbarth Gwent neu o bell.

**Arweinyddiaeth Strategol a Llywodraethu**

Galluogi'r Bwrdd a'r staff i ddiffinio a sefydlu'r cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau a sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i'w cyflawni. Galluogi'r Bwrdd i fonitro ac adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Strategaeth a'r effaith debygol ar fusnes, gan hefyd gynnal safon uchel o lywodraethu bob amser.

**Cysylltu â'r Tîm Gweithredol**

Cynrychiolir y Bwrdd fel rheol drwy'r Cadeirydd wrth reoli'r berthynas waith gyda'r Tîm Gweithredol.

**Datblygu ac Annog Aelodau'r Bwrdd**

Arwain wrth sefydlu a datblygu aelodau unigol o'r Bwrdd, gyda'r bwriad o wella effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd fel tîm a chynorthwyo gyda chynllunio olyniaeth.

**Asesu Perfformiad**

Sicrhau bod asesiadau cymheiriaid a hunanasesiadau perfformiad yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys y Cadeirydd, a'r Tîm Gweithredol. Gall y Cadeirydd ddirprwyo rhai agweddau ar ei awdurdod ond mae'n parhau i fod yn atebol am gamau gweithredu'r dirprwy.

**Hyrwyddo Tegwch a Chydraddoldeb**

Galluogi tegwch mewn ymarfer ac ymdrechu i sicrhau cydraddoldeb i'r holl aelodau, y staff ac aelodau'r bwrdd, gan gynnwys hyrwyddo diwylliant bwrdd cydweithredol. Sicrhau bod y Bwrdd yn ysgwyddo cyfrifoldeb am Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y sefydliad a'r cynllun gweithredu.

**Swyddogaeth Lysgenhadol**

Gweithredu fel llysgennad i Bartneriaeth Chwaraeon Gwent yn allanol a helpu i feithrin ei brand a'i delwedd gyhoeddus, gan sicrhau proffil lleol a rhanbarthol effeithiol gan ymgynghori â'r Tîm Gweithredol. Hyrwyddo'r model cyflawni newydd hwn ac arloesi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled Gwent. Cynrychioli Partneriaeth Chwaraeon Gwent gyda rhanddeiliaid allweddol, fel Chwaraeon Cymru, Llywodraeth Cymru neu eraill sy'n gwneud penderfyniadau dylanwadol. Mynychu cyfarfodydd ad-hoc yn ôl yr angen (er enghraifft, cyfarfodydd rhanddeiliaid) i hyrwyddo gwerthoedd a diben y sefydliad.



© Acorn by Synergie

# Manyleb y Person



- Tystiolaeth o lwyddiant, o fewn neu'r tu allan i'r sector chwaraeon, mewn sefydliad rhanbarthol neu gydweithredol, Elusen, amgylchedd Corfforaethol, Iechyd, Tai, Addysg, Cydraddoldeb neu Wasanaethau Proffesiynol.
- Tystiolaeth o'r gallu i weithredu gyda phroffesiynoldeb a gonestrwydd, a gydag athroniaeth gref o degwch, cynhwysiant ac amrywiaeth.
- Tystiolaeth o arweinyddiaeth gynhwysol eithriadol sy’n cael ei harwain gan werthoedd.
- Tystiolaeth o arwain mewn amgylchedd o newid.
- Profiad ar Fyrddau eraill neu reolaeth lle'r oedd arweinyddiaeth a chynllunio strategol yn rhan o'r rôl.
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r problemau sy'n wynebu ardal Gwent ac, yn benodol, sefydliadau chwaraeon ar lefel ddomestig a / neu ryngwladol.
- Hygrededd yn y sector chwaraeon yng Nghymru a gwybodaeth amdano.
- Byddai profiad o Lywodraethu Cyfreithiol a Chorfforaethol yn fuddiol.
- Siaradwr Cymraeg (dymunol).

© Acorn by Synergie

# Gwybodaeth Bellach

**Pwrpas**

I ddechrau, bydd y Bwrdd cysgodol yn cyfarfod yn fisol ond bydd yn adolygu amledd ei gyfarfodydd ar ôl y chwe mis cyntaf o weithredu wrth i'r bwrdd llawn ddod yn fwy sefydledig.

Prif rôl bwrdd Partneriaeth Chwaraeon Gwent yw sicrhau bod y cyfeiriad strategol a'r amcanion yn cael eu datblygu, monitro perfformiad a defnyddio gwybodaeth a dysgu i wella'n barhaus a thargedu ei ddarpariaeth. Bydd Partneriaeth Chwaraeon Gwent yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i fuddsoddi yn y rhanbarth yn flynyddol.

**Ymrwymiad Amser**

Cadeirio'r Bwrdd a mynychu'r Bwrdd, cynnal adolygiad perfformiad y Cyfarwyddwr Rhanbarthol a chynrychiolaeth allanol i Bartneriaeth Chwaraeon Gwent.

Cynhelir cyfarfodydd y bwrdd yn fisol am y 6 mis cyntaf, gyda'r bwriad o leihau'r amledd dros y tymor hir. Amcangyfrifir bod angen ymrwymiad amser o 2 ddiwrnod y mis.

**Tâl**

Bydd y Cadeirydd yn derbyn taliad o £5,000 y flwyddyn. Bydd yr holl gostau ychwanegol a rhesymol sy'n codi wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd yn cael eu had-dalu yn unol â pholisïau Partneriaeth Chwaraeon Gwent.

**Tymor**

Tymor y swydd yw 4 blynedd gydag ail dymor (yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd) o 3 blynedd.

Rydym wedi ymrwymo i weithredu amgylchedd proffesiynol cadarnhaol a hyblyg a byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn dileu unrhyw rwystrau i ymgysylltu'n llawn ar ein Bwrdd.



© Acorn by Synergie

# Proses Recriwtio



Os hoffech chi drafod y rôl cyn cyflwyno cais, cysylltwch â Luke Robért i ddechrau, a fydd yn fwy na pharod i helpu

**Luke Robért**

luke.robert@acornpeople.com
07551 353 260

**Gwnewch gais ar-lein a bydd ymgynghorydd o Acorn mewn cysylltiad i ddweud mwy wrthych chi ac i drafod y camau nesaf.**

**Cofiwch, fel rhan o'ch cais, bydd gofyn i chi ddarparu'r canlynol:**

1. CV wedi'i ddiweddaru
2. Datganiad ategol (Uchafswm o 1 Dudalen A4) sy'n nodi pam yr hoffech ymuno â'r bartneriaeth a pham rydych chi'n credu y byddech yn gwneud ymgeisydd credadwy, gan gyfeirio at y gofynion a geir ym manyleb y person ar dudalen 5.

**Dyddiadau allweddol**

Dyddiad Cau: Hanner nos Dydd Sul 19 Hydref

Dyddiad Cyfweld: Dydd Llun 3 Tachwedd

© Acorn by Synergie